Rhif: WG28184

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 27 Mai 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am farn am y drafft o'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig i Gymru (CGS ASD). Datblygwyd y cynllun gweithredu drwy ymgynghori â phobl sydd ag ASD, eu teuluoedd a gofalwyr a Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD Cymru. Y canlyniad cyffredinol ar gyfer y cynllun gweithredu yw:

**Y bydd anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig a'u rhieni a gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth ar hyd eu hoes i gyflawni eu canlyniadau lles.**

Mae'r CGS ASD drafft wedi'i seilio ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a bennwyd gan randdeiliaid ac mae'r grŵp cynghori wedi darparu cyngor arbenigol ar y camau y gellid eu cymryd i sicrhau gwelliannau i wasanaethau a chymorth. Rydym yn ymgynghori yma ar ein cynigion ar gyfer gweithredu. Mae'r cyfnod ymgynghori'n 12 wythnos o hyd. Byddwn yn ystyried y sylwadau a gawn ac, os bydd angen, caiff y ddogfen ddrafft hon ei diwygio i adlewyrchu'r farn a fynegwyd a chaiff ei chyhoeddi fel diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD.

**Sut i ymateb**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy lenwi ffurflen ymateb yr ymgynghoriad yn atodiad naw yng nghefn y ddogfen hon a'i dychwelyd drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Is-adran Datblygu Polisi ar gyfer Plant ac Oedolion
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu mae ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan:
http://gov.wales/consultations/?lang=cy

a gellir ei dychwelyd i ni drwy'r e-bost i
childrenanddisabilities@wales.gsi.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | Is-adran Datblygu Polisi ar gyfer Plant ac Oedolion<br>Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: childrenanddisabilities@wales.gsi.gov.uk<br><br>Rhif ffôn: 029 2080 1439 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni:<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig yn eich ymateb.  Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei |

chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Diweddariad o’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig i Gymru

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Pennod Un | Cyflwyniad | 6 |
| **Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu** | | |
| Pennod Dau | Codi ymwybyddiaeth, Gwybodaeth, a Hyfforddiant | 12 |
| Pennod Tri | Asesu, Diagnosis a Chymorth | 15 |
| Pennod Pedwar | Mynd i’r afael ag anghenion cymorth | 17 |
| Pennod Pump | Addysg a Chyflogaeth | 21 |
| Pennod Chwech | Cyflawni’r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu | 27 |
| **Atodiadau** | | |
| Atodiad un | Aelodau Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD | 30 |
| Atodiad dau | Aelodau’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD | 32 |
| Atodiad tri | Cryndeb o Ganfyddiadau’r Gwerthusiad o Ganlyniadau’r Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig 2008 | 34 |
| Atodiad pedwar | Adroddiad Cryno o’r Ymgynghoriad â Rhanddeiliad 2015 | 37 |
| Atodiad pump | Canlyniadau’r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD | 39 |
| Atodiad chwech | Cyfeiriadau | 40 |
| Atodiad saith | Ffynonellau Cyngor Annibynnol | 41 |
| Atodiad wyth | Adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfowales | 42 |
| Atodiad naw | Ffurflen ymateb i gwestiynau’r Ymgynghoriad | 45 |
| **Rhestr Termau** | | 49 |

# PENNOD UN

## Cyflwyniad

### Cefndir

1.1  Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (CGS ASD) gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Hon oedd y strategaeth gyntaf ar gyfer ymdrin ag awtistiaeth yn y DU. Ers hynny rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, darparu hyfforddiant ar awtistiaeth a sefydlu seilwaith ASD mewn awdurdodau lleol. Rydym wedi ymdrin ag anghenion oedolion ag awtistiaeth drwy wella gwasanaethau diagnostig, darparu cymorth cymunedol a chodi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg cyflogwyr. Rydym wedi cyhoeddi gwerthusiad annibynnol o ganlyniadau'r CGS ASD cyntaf: mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn atodiad tri. Mae'r gwerthusiad wedi dangos y gwelliannau allweddol a gafwyd a lle dylid gweithredu ymhellach.

1.2  Cafwyd ymrwymiad Gweinidogol i ddiweddaru'r CGS ASD, a dechreuwyd ar hyn drwy ymgynghori â'n rhanddeiliaid er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac wedyn drwy sefydlu Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD i ddarparu cyngor arbenigol. Ym Mai 2015 cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni Interim a oedd yn nodi lle'r oedd angen bwrw ymlaen i weithredu, ac roedd y canlyniadau o hynny wedi cyfrannu wedyn at ddatblygu'r diweddariad o'r cynllun gweithredu.  Mae crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd yn atodiad pump.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid gan gynnal gweithdai i randdeiliaid ac arolygon ar-lein i gael rhagor o wybodaeth am y meysydd lle mae angen buddsoddi'r adnoddau mwyaf yn y dyfodol.

1.3  Mae'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (CGS ASD) yn egluro ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynorthwyo plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag awtistiaeth ar hyd eu hoes. Bydd y cynllun hwn wedi'i seilio ar raglen sylweddol o weithgareddau dros y tair blynedd nesaf i ddarparu gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol. Mae **buddsoddiad o £6 miliwn** yn gefn i hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth newydd hwn ym mhennod pedwar, sy'n trafod anghenion sydd heb eu diwallu.

1.4  Rydym am sicrhau bod eu hanghenion wedi'u deall a bod gwybodaeth a chymorth ar gael i'w galluogi i fyw eu bywyd yn llawn. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu hwn yw:

**Y bydd anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig a'u rhieni a gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth ar hyd eu hoes i gyflawni eu canlyniadau lles.**

Datblygwyd y cynllun gweithredu drwy gael cyngor ac arweiniad arbenigol gan randdeiliaid a ffynonellau o lawer math.  Mae rhestr o'r rhain isod ynghyd â ffyrdd o gael rhagor o wybodaeth am bob un:

- ➢ Cyngor gan y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD arbenigol (aelodaeth yn atodiad 1)
- ➢ Cyngor gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD (aelodaeth yn atodiad 2)
- ➢ Adborth a gasglwyd o ddigwyddiadau ac arolygon ymgynghori â rhanddeiliaid (mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn atodiad 4)
- ➢ Y gwerthusiad o'r CGS ASD cyntaf: mae crynodeb o'r canfyddiadau yn atodiad 3 http://gov.wales/statistics-and-research/outcome-evaluation-autism-spectrum-disorder-strategic-action-plan/?skip=1&lang=cy
- ➢ Canlyniadau'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD a gyhoeddwyd ym Mai 2015 (atodiad 5)
- ➢ Gwybodaeth a gasglwyd oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau ac o ffynonellau academaidd dibynadwy (atodiadau 6/7/8).

1.5 Nid yw'r diweddariad o'r cynllun gweithredu'n rhoi gwybodaeth fanwl am awtistiaeth, fel y llwybrau diagnosis priodol neu'r ymyriadau sydd ar gael. Mae pob gwybodaeth o'r fath ar y wefan sy'n ategu'r cynllun gweithredu www.asdinfowales.co.uk. Mae rhestr o'r holl adnoddau sydd ar gael ar y wefan hon ac o ffynonellau awdurdodol eraill yn **atodiad 8** ac mae rhestr o ffynonellau gwybodaeth dibynadwy eraill yn **atodiad 7**.

1.6 Mae'r cynllun gweithredu'n cwmpasu datblygiadau newydd o ran polisi a deddfwriaeth ar draws Llywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar y ffordd o gynllunio a darparu gwasanaethau, yn enwedig ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r rhain yn cynnwys:

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Bydd yn cael effaith sylfaenol ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol. O dan y Ddeddf, bydd y cyrff cyhoeddus a restrwyd ynddi, sy'n cynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn meddwl yn fwy am y tymor hir, yn cydweithio'n well â phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, yn ceisio atal problemau ac yn gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru y byddwn ni i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn sicrhau bod pawb yn ceisio cyrraedd yr un nodau.

1.8 Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid i bob BGLl wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ei ardal drwy ymdrechu i gyrraedd y nodau llesiant. Bydd y cynllun cyflawni ar gyfer y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD yn cael ei seilio ar y blaenoriaethau sydd yn y Ddeddf.

- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru lewyrchus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru o gymunedau cydlynus

Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1.9 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy a bydd yn cael ei gweithredu o fis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau newid sylfaenol yn y ffordd o gynllunio a darparu gofal cymdeithasol, gan roi pwyslais newydd ar wasanaethau ataliol, gwella llesiant yr unigolyn a hybu cydgynhyrchu rhwng y rheini sydd ag angen gwasanaethau cymorth a darparwyr gwasanaethau. Ymhlith y prif ddyletswyddau newydd mae gofyniad ar awdurdodau lleol ynghyd â byrddau iechyd i gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth er mwyn adnabod anghenion lleol am wasanaethau a chynllunio i gwrdd ag anghenion am gymorth yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys nodi pobl sydd ag awtistiaeth a'u gofalwyr a all fod ag angen cymorth gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddinasyddion lleol. Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf yn http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy

1.10 Mae'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd hefyd yn cael ei diwygio i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael wedi'u cyfeirio at y bobl sydd â'r angen mwyaf. Mae'r pwyslais newydd ar Ofal Iechyd Darbodus yn egluro'r newidiadau sydd eu hangen yn y ffordd y mae pawb yn meddwl am ofal iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar y rheini sydd â'r angen mwyaf amdanynt. Rhaid seilio mynediad at ofal a thriniaeth ar angen clinigol, nid ar yr amser y mae rhywun ar y rhestr aros, fel mai'r rheini sydd â'r angen mwyaf fydd yn cael cymorth yn gyntaf. Mae rhagor o wybodaeth am Ofal Iechyd Darbodus yn http://gov.wales/topics/health/nhswales/prudent-healthcare/).

## Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni 2016-19

1.11 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, http://gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?lang=cy yw strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles a gyhoeddwyd yn Hydref 2012. Mae'n strategaeth ar gyfer y Llywodraeth gyfan ac yn cynnwys pob oed. Mae'n cwmpasu gwahanol fathau o gamau gweithredu, rhai ar gyfer gwella lles meddyliol pawb yng Nghymru, yn ogystal â chamau i helpu pobl sydd â salwch meddwl difrifol a pharhaus. Gweithredir y strategaeth drwy gynlluniau cyflawni tair blynedd sy'n pennu'r prif gamau gweithredu i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau rhanddeiliaid yn y sector statudol a'r trydydd sector. Mae'r ail gynllun cyflawni ar gyfer y cyfnod 2016-19 ac mae'n cynnwys camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith niwroddatblygiadol o dan y Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc sy'n cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth. Mae hyn wedi'i drafod yn fwy manwl ym mhennod 3.

1.12 Un o'r meysydd polisi allweddol eraill yw'r diwygio cyfredol yn y system gymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, sydd wedi'i drafod ym mhennod 5. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael yma

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?lang=cy

1.13 Gellir cysylltu'r gwaith hwn ag agenda Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi sy'n ceisio gwella canlyniadau i'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith ar hyrwyddo sgiliau, cyflogaeth a datblygu economaidd drwy ein strategaeth sgiliau a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma, http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy ac mae hyn yn cael ei drafod ym mhennod 5.

1.14 Mae amcanion cydraddoldeb diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-20 yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn deg a hygyrch i bobl anabl a phobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig eraill o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae mathau o anghydraddoldeb yn galw am sylw o hyd a bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, sydd i'w gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2016, yn amlinellu'r meysydd y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt i helpu i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/?lang=cy

## Diffinio Awtistiaeth

1.15 Mae'n bwysig ailddatgan y diffiniad o awtistiaeth yr ydym yn ei dderbyn, i sicrhau cysondeb â'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Bydd y diweddariad o'r CFS ADS yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad o awtistiaeth sydd wedi'i fabwysiadu gan Sefydliad Iechyd y Byd[1]:

***"The term autistic spectrum disorders (ASD) is used to describe the group of pervasive developmental disorders characterised by qualitative abnormalities in reciprocal social interactions and in patterns of communication and by restricted, stereotyped, repetitive repertoire of interests and activities."***

1.16 Mae'r sbectrwm awtistig yn llydan iawn a gall effeithio ar bobl sydd ar bob lefel o allu deallusol. Er nad oes triniaeth ar gyfer ASD, mae cymorth ac ymyrraeth briodol yn gallu helpu unigolion i wireddu eu potensial.

1.17 Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer pobl sydd ym mhob rhan o'r sbectrwm ac yn cynnwys unigolion sydd hefyd ag anabledd dysgu yn ogystal â'r rheini sy'n fwy abl gan gynnwys rhai a gafodd ddiagnosis o Syndrom Asperger. Mae'n anodd iawn amcangyfrif nifer y bobl y mae ASD yn effeithio arnynt gan fod y canfyddiadau mewn astudiaethau'n amrywio. Yn ôl y dystiolaeth bresennol, mae anhwylderau ar y sbectrwm awtistig gan oddeutu 1%[2] neu fwy o'r boblogaeth gyfan. Ar ôl ystyried y dystiolaeth helaeth sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru o blaid derbyn 1% yn amcangyfrif gorau o'r gyfran o'r boblogaeth sydd ag awtistiaeth. Felly, ar sail y data

[1] World Health Organisation (1993) The ICD -10 Classification of Mental and Behavioural Disorders: Diagnostic Criteria for Research

[2] Baird, G., Simonoff, E., Pickles, A. et al. Prevalence of disorders of the autism spectrum in a population cohort of children in South Thames: the Special Needs and Autism Project (SNAP). Lancet 2006; 368:(9531)210-5

am Gymru o Gyfrifiad 2011,[3] credir mai nifer y bobl ag awtistiaeth yng Nghymru yw tua 31,000, er ei bod yn bosibl bod nifer sylweddol o'r rhain heb gael diagnosis a heb ddod i sylw gwasanaethau.

### Canllawiau NICE ar roi diagnosis o awtistiaeth a darparu gwasanaethau

1.18 Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cydnabod pwysigrwydd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar awtistiaeth. Mae NICE yn gorff cydnabyddedig sy'n darparu cyngor a gwybodaeth awdurdodol ar faterion iechyd o bob math. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae NICE wedi llunio nifer o ddogfennau canllaw ar roi diagnosis o awtistiaeth a'i rheoli ymysg plant. Diben canllawiau NICE yw hybu a mesur gwelliannau mewn ansawdd a disgrifio nodweddion gwasanaethau da. Dylai byrddau iechyd ystyried y canllawiau wrth gynllunio gwasanaethau awtistiaeth gan eu bod yn feincnod cydnabyddedig ar gyfer yr hyn y dylai gwasanaethau geisio ei ddarparu. Mae rhagor o wybodaeth am ganllawiau NICE ar awtistiaeth ar wefan http://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=4 neu'n uniongyrchol ar wefan NICE yn http://pathways.nice.org.uk/pathways/autism. Yn ogystal â dogfennau cyngor technegol, mae NICE[4] wedi darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc i ategu'r canllawiau clinigol hyn.

### Awtistiaeth ac Anhwylderau Cydfodol

1.19 Mae anabledd dysgu cydfodol gan nifer mawr o bobl sydd ag awtistiaeth. Gall eraill fod ag anhwylderau iechyd meddyliol a chorfforol. Mae ymchwil yn dangos mai'r anhwylderau mwyaf cyffredin yw anawsterau cysgu, problemau gastroberfeddol, clust ludiog, epilepsi, gorbryder, iselder, dyspracsia, dyslecsia, anhwylder obsesiynol cymhellol, anhwylder diffyg canolbwyntio, a gorfywiogrwydd. Os bydd awtistiaeth yn bodoli ar y cyd ag anhwylder arall, gall hynny arwain at anawsterau cymhleth na fydd modd eu trin o bosibl drwy ddulliau traddodiadol. Felly bydd yn bwysig bod ymarferwyr yn nodi presenoldeb awtistiaeth yn ogystal â'r anhwylder cydfodol ac yn cynllunio'r gofal yn unol â hynny.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.20 Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael er mwyn asesu a fydd y diweddariad o'r CGS ASD yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a bennwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010[5]. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth bod cyfraddau'r achosion o awtistiaeth yn uwch o lawer ymysg gwrywod na benywod ac wedi ystyried yr anghenion gwahanol sydd gan bobl hŷn sydd ag awtistiaeth. Yn 2009 roeddem wedi comisiynu ymchwil i amgylchiadau pobl hŷn sydd ag ASD[6] a oedd wedi cyfrannu at y penderfyniad i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i oedolion. Mae

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) Cyfrifiad 2011: Ystadegau Allweddol ar gyfer Cymru 2011
[4] NICE (2011) Information about NICE Clinical Guidance 128
[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
[6] Stuart-Hamilton et al. (2009) The Circumstances and Support Needs of Older People with Autism. Llywodraeth Cymru

perthynas gydnabyddedig hefyd rhwng awtistiaeth ac anableddau dysgu. Mae'r Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu 2007 yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar anableddau dysgu. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cael cyngor ar faterion anabledd dysgu gan y Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu. Ceir gwybodaeth am y grŵp hwn a'i waith yn http://www.ldag.info/.

1.21 Er mwyn dangos ein hymrwymiad i helpu pobl anabl i fyw bywyd annibynnol a chynhwysol, yn 2013 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol[7]' sy'n egluro sut y byddwn yn ymdrechu i ddelio â'r rhwystrau rhag byw'n annibynnol y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Mae'r fframwaith ar gael yma http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?lang=cy

1.22 Roedd ein hasesiad yn dangos nad oedd nemor ddim tystiolaeth yn ymwneud ag awtistiaeth mewn grwpiau ethnig lleiafrifol ac rydym yn cydnabod bod lle i wneud mwy o waith yn y maes hwn. Byddwn yn sicrhau bod y CGS ASD yn ystyried effaith awtistiaeth ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac yn cymryd camau, lle bynnag y bo modd, i wella cydraddoldeb a chynhwysiant.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

1.23 Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sydd wedi dangos yr angen am ddarparu gwasanaethau cymorth yn Gymraeg os gofynnir amdanynt. Rydym yn cydnabod y gall rhai unigolion fod ag angen gwasanaethau diagnosis a chymorth yn Gymraeg ac rydym yn monitro effaith hynny drwy ein hymgynghoriad â rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl adnoddau ar gyfer awtistiaeth yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac mae'r wefan ASDinfo www.asdinfowales.co.uk ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal â hyn, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion y boblogaeth am ofal a chymorth: bydd yr asesiad hwn yn cynnwys y gofyniad i asesu'r angen am ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1.24 O fis Mai 2014 mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw ac ystyriaeth ddyladwy i hawliau plant wrth arfer eu holl swyddogaethau. Mae asesiad o'r effaith ar hawliau plant wedi'i gynnal sydd wedi ein galluogi i ystyried sut y gall y cynllun gynnal hawliau plant a gwella'r cymorth a gwasanaethau y maent yn eu cael. Cynllun gweithredu i bob oed yw hwn ac rydym wedi ceisio adnabod anghenion plant: bydd hyn yn cynnwys y ffordd y byddwn yn sicrhau bod plant yn pontio'n ddi-dor i wasanaethau i oedolion.

[7] Llywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol

# PENNOD DAU

## Codi ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

2.1 Roedd y CGS ASD cyntaf wedi sefydlu seilwaith ar gyfer awtistiaeth ar draws awdurdodau lleol, a oedd yn cynnwys Swyddog Arweiniol lleol ar ASD ym mhob awdurdod ac yn creu grwpiau llywio lleol, gan ddarparu £40,000 y flwyddyn i bob awdurdod lleol i ddatblygu cymorth ar gyfer awtistiaeth. Bellach mae'r cyllid grant ar gyfer y seilwaith wedi'i drosglwyddo i Grant Cynnal Refeniw yr awdurdodau lleol. O ganlyniad i hyn, bydd y cyllid ar gael bob blwyddyn a bydd hyblygrwydd gan awdurdodau lleol i benderfynu sut y byddant yn defnyddio'r cyllid i ddarparu cymorth a gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth yn lleol. Bydd dyletswydd o hyd ar awdurdodau lleol i adnabod anghenion a darparu gwybodaeth a chymorth i bobl ag awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a weithredir o fis Ebrill 2016. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dyletswydd i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ym mhennod un.

2.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r seilwaith lleol ar gyfer ASD drwy ariannu Fforwm Cenedlaethol Swyddogion Arweiniol ASD a fydd yn cael ei gynnal gan y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD. Bydd hwn yn dod â swyddogion arweiniol ASD lleol at ei gilydd i ddatblygu a rhannu arferion da.

### Rôl y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD

2.3 Er mwyn darparu cyngor arbenigol a chydgysylltu cymorth ar gyfer awtistiaeth byddwn yn parhau i gefnogi rôl y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD. Mae'r rôl hon yn cael ei chynnal ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gan bontio rhwng dau faes allweddol sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth – awdurdodau lleol, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac addysg, a gwasanaethau iechyd. Prif gyfrifoldebau'r rôl yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru a chydweithio ag arbenigwyr allweddol i ddarparu:

- Cyngor a chymorth ar asesu a rhoi diagnosis o ASD ar gyfer plant ac oedolion.
- Cyngor, a datblygu gwybodaeth i bobl sydd ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr.
- Codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gwybodaeth i staff proffesiynol, gan gynnwys ysgolion a meddygon teulu.
- Cyngor ar ymyriadau a chymorth gan gynnwys pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
- Cymorth i seilwaith ASD yr awdurdodau lleol, gan gynnwys y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ASD.

### Gwefan ASDinfoWales

2.4 Agwedd hanfodol ar waith y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer ASD, sy'n cael ei reoli gan y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD yw cynnal a datblygu gwefan

www.ASDinfowales.co.uk. Bydd gwaith pellach i ddatblygu a hyrwyddo'r wefan hon yn allweddol wrth gyflawni'r diweddariad o'r CGS ASD.

## Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant

2.5 Mae rhieni, gofalwyr a staff proffesiynol wedi dweud wrthym droeon fod arnynt angen ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy a chyfredol ar awtistiaeth sy'n cwrdd â'u hanghenion. Roedd y CGS ASD cyntaf yn llwyddiannus iawn o ran helpu i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfo wales. Mae hyn yn cynnwys canllawiau i rieni ac oedolion ag awtistiaeth. Drwy'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD rydym yn parhau i ddatblygu adnoddau i gwrdd ag anghenion a nodwyd. Mae arlwy cynhwysfawr o adnoddau a gwybodaeth ar gael ar y wefan ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfeiriadur Gwasanaethau a Chyfeiriadur Hyfforddiant ASD.
- Cyngor a gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant gan gynnwys canllaw cyfeirio, ffilmiau gwybodaeth a thaflenni cyngor.
- Arweiniad i rieni a gofalwyr oedolion sydd ag awtistiaeth.
- Adnoddau hyfforddi i staff proffesiynol, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ym maes cymorth cyflogaeth ('Gweithio gydag Awtistiaeth'), ysgolion ('Dysgu gydag Awtistiaeth') ac iechyd a gofal cymdeithasol ('Byw gydag Awtistiaeth).
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gyfer y cyhoedd, sy'n cynnwys adnodd e-ddysgu a chynllun ardystio
- Adduned 'Archarwr Awtistiaeth' sy'n cynnwys llyfr comic addysgiadol a chynllun ardystio ar gyfer plant cyfnod allweddol 2.
- Adnoddau cyflogaeth ar gyfer unigolion sydd ag ASD, gan gynnwys lluniwr CV ystyriol o ASD, offeryn ac ap ffôn ar gyfer chwilio am swyddi.
- Adnoddau i rieni a gofalwyr, gan gynnwys taflenni cyngor a chardiau cynllunio â lluniau i'w lawrlwytho.
- Adnoddau byw'n annibynnol i unigolion sydd ag awtistiaeth, gan gynnwys 'Cynllun y Waled Oren', Cynlluniwr ASD ac Awtistiaeth: Canllaw i Oedolion yn Dilyn Diagnosis
- Dau luniwr proffil personol rhyngweithiol (un i oedolion ac un i blant) i'w defnyddio gan staff proffesiynol, rhieni, gofalwyr ac unigolion ag ASD.
- Pecyn cymorth ar gyfer asesu diagnostig i glinigwyr, sy'n cynnwys adnoddau pwrpasol, dolenni ac adnoddau i'w lawrlwytho.
- Gwybodaeth i atgyfeirwyr, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am arwyddion awtistiaeth.
- Pecyn cymorth i ymarferwyr sy'n darparu gwybodaeth am ddulliau seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys dolenni ac adnoddau i'w lawrlwytho

2.6 Rydym yn casglu llyfrgell sylweddol o ddeunyddiau gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant sydd ar gael i bawb yn ddi-dâl. Rydym yn gwybod bod angen gwneud rhagor a thrwy gyflawni'r cynllun gweithredu hwn byddwn yn parhau i gydweithio â'n rhanddeiliaid i adnabod bylchau mewn gwybodaeth a chyngor ac i fuddsoddi mewn rhagor o ddeunyddiau i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg grwpiau proffesiynol. Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym meysydd gofal sylfaenol, iechyd meddwl, a gwasanaethau hamdden

yn ogystal â chyflogwyr. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio ar gyfer adrannau Adnoddau Dynol. Mae rhestr lawn o'r adnoddau sydd ar gael ar y wefan yn atodiad 8.

2.7 Rydym yn cydnabod bod nifer o adnoddau defnyddiol wedi'u datblygu gan ymarferwyr ledled Cymru ac rydym yn annog unigolion i rannu'r rhain â'r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD fel y gellir eu cydgysylltu a threfnu iddynt fod ar gael i bawb os yw'n bosibl.

**Byddwn yn cymryd y camau canlynol:**

- Parhau i gefnogi rôl y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD ar gyfer darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar awtistiaeth i Lywodraeth Cymru, grwpiau proffesiynol a rhanddeiliaid.

- Parhau i gefnogi a datblygu gwefan ASDinfowales er mwyn darparu ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth a chyngor ar awtistiaeth yng Nghymru.

- Canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant a'u darparu yn y meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys ysgolion, nyrsys, gwasanaethau hamdden a chyflogwyr.

- Parhau i gefnogi'r Fforwm ASD er mwyn galluogi awdurdodau lleol i rannu arferion da.

# PENNOD TRI

## Asesu, Diagnosis a Chymorth

3.1 Mae'r gallu i gael gafael yn amserol ar wasanaethau diagnostig i blant ac oedolion yn parhau'n flaenoriaeth yn y CGS ASD ac mae'n gam gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD. Rydym yn gwybod bod angen gwneud rhagor ac, mewn ymateb i bryderon ymysg rhanddeiliaid, roeddem wedi ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen ar ddiagnosis ym Mawrth 2015 er mwyn canolbwyntio ar wella gwasanaethau diagnostig i blant ac oedolion gan adlewyrchu'r arferion gorau yng nghanllawiau NICE a nodwyd ym Mhennod 1.

### Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc – ffrwd waith niwroddatblygiadol

3.2 Lansiwyd y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn Chwefror 2015, i sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yng Nghymru'n gynaliadwy. Mae'r GIG yn arwain y broses o newid ac aildrefnu gwasanaethau, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi comisiynu Cadeirydd Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol yr Athro y Fonesig Sue Bailey, i ddarparu cyngor a chraffu allanol i'r GIG wrth iddo geisio creu newid diwylliannol a sefydliadol mewn CAMHS ac ymysg ei bartneriaid a fydd yn cyfrannu at ddatblygu plant iach a chydnerth.

3.3 Yn ogystal ag ailfodelu CAMHS arbenigol yn y GIG, mae hefyd yn adolygu gwasanaethau sy'n hybu lles a chydnerthedd, gwasanaethau sy'n darparu ymyriadau cymorth cynnar i grwpiau agored i niwed ac yn canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc sydd ag anhwylderau niwroddatblygiadol fel ASD ac ADHD. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol o £2 filiwn.

3.4 Sefydlwyd gweithgor cenedlaethol i ddarparu arweinyddiaeth a chymorth strategol i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel ac i gytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer rhaglen wella dair blynedd 1000 o Fywydau CLILC/Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cylch gwaith y gweithgor yw:

- Sicrhau gwell dealltwriaeth o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio (ADHD)/ Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) yn yr holl asiantaethau.
- Cytuno ar lwybrau gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd ag ADHD/ASD.
- Sicrhau bod gwasanaethau asesu a thriniaeth arbenigol ar gael yn amserol i'r rheini sydd â'u hangen.
- Dod â sgiliau gwasanaethau iechyd meddwl, anabledd dysgu, pediatryddion a therapyddion at ei gilydd i ddatblygu asesiad uchel ei ansawdd o anghenion, diagnosis a darpariaeth o ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth wrth i anghenion godi yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar sicrhau diagnosis.

3.5 Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2015 a bydd y gweithgor yn alinio â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Ddiagnosis ASD a fydd yn canolbwyntio o hyn ymlaen ar asesu diagnostig ar gyfer oedolion.

3.6 Mae'r cyllid newydd sydd ar gael yn gwneud gwahaniaeth o ran amseroedd aros ac arferion diagnostig ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddwn yn monitro'r cynnydd ar y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'r camau a gytunwyd i wella gwasanaethau diagnostig ar gyfer oedolion.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD

3.7 Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen Diagnosis ASD wedi cwrdd bum gwaith. Ei gylch gwaith gwreiddiol oedd ystyried gwasanaethau diagnostig ar gyfer plant ac oedolion ond, er mwyn peidio â dyblygu gwaith, ar ôl lansio Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a sefydlu'r grŵp gweithredu niwroddatblygiadol, roedd aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn cynrychioli gwasanaethau plant wedi ymuno â grŵp gweithredu Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Wedyn roedd y grŵp gorchwyl a gorffen Diagnosis ASD wedi ystyried gwasanaethau diagnostig i oedolion ac wedi darparu cyngor i weinidogion ar yr opsiynau ar gyfer sicrhau gwelliannau er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer rhoi diagnosis drwy gydol oes sy'n gyson â chanllawiau NICE ar gyfer diagnosis a chymorth i oedolion ag awtistiaeth.

3.8 Rydym am barhau â llwyddiant y rhwydwaith cwnsela cyn ac ar ôl diagnosis ASD i oedolion a byddwn yn ceisio gwella'r llwybr diagnostig i oedolion drwy ddarparu cymorth ychwanegol ar draws gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol o dan ein cynlluniau ar gyfer gwasanaeth awtistiaeth integredig i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig, a chamau i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg comisiynwyr a grwpiau proffesiynol eraill.

**Byddwn yn cymryd y camau gweithredu canlynol:**

- Sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau diagnostig ASD i blant drwy'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a monitro ei llwyddiant.

- Sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau diagnostig i oedolion a chymorth ar ôl cael diagnosis drwy ein cynlluniau ar gyfer gwasanaeth integredig a monitro llwyddiant.

## PENNOD PEDWAR

## Mynd i'r afael ag anghenion cymorth

### Cwrdd ag Anghenion

4.1 Mae'n bosibl bod nifer o bobl ag awtistiaeth, yn enwedig oedolion ag awtistiaeth uchel-weithredol, nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau gofal a chymorth ffurfiol, heblaw'r rheini sydd ar gael fel arfer i bob dinesydd. Er hynny, derbynnir bod anghenion parhaus am gymorth gan nifer o'r bobl hyn a all beri i anawsterau droi'n argyfwng os na fyddant yn cael eu diwallu. Gall hyn arwain yn y pen draw at yr angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol dwys. Bydd oedolion ag awtistiaeth yn aml yn profi gorbryder ac arwahanrwydd cymdeithasol; mae nifer yn cael anawsterau mewn perthynas ag addysg ac yn wynebu problemau wrth ddod o hyd i gyflogaeth a'i chadw. Mae oedolion ag awtistiaeth hefyd yn gallu ei chael yn anodd ffurfio a chadw perthnasoedd cymdeithasol a chyfeillgarwch ac yn aml yn ei chael yn anodd cael gafael ar ddarpariaeth yn y gymuned heb gymorth.

4.2 Mae canllawiau NICE[8] Autism in adults: diagnosis and management (CG142), yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau:

*A significant proportion of adults with autism across the whole autistic spectrum experience social and economic exclusion. The condition is often overlooked by healthcare, education and social care professionals, which creates barriers to accessing the support and services they need to live independently.* (tudalen 4).

4.3 Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf ar gyfer ASD yn cydnabod bod darparu gwasanaethau cymorth lefel isel yn gallu helpu i atal anghenion rhag dwysáu. Rhwng 2010 a 2015 roedd Llywodraeth Cymru wedi ariannu Prosiectau Cymorth Monitro Cymunedol rhanbarthol a oedd yn darparu cyngor a chyfeirio anffurfiol i oedolion mewn perthynas â gwahanol fathau o anghenion gan gynnwys sgiliau cymdeithasol a chymorth ar gyfer cyflogaeth. Rydym wedi defnyddio data o'r prosiectau hyn i gael gwybod am anghenion oedolion sydd ag ASD. Mae'r Gwerthusiad o Ganlyniadau'r CGS ASD hefyd wedi dangos bod bylchau mewn gwasanaethau a bod galw am gymorth ychwanegol i'r rheini sy'n anghymwys i dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol, gan argymell gwneud rhagor o waith i lenwi'r bylchau hyn.

4.4 Yn ystod 2015, cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i edrych ar amrywiaeth o wasanaethau awtistiaeth mewn gwahanol rannau o'r DU a oedd yn ceisio llenwi bylchau yn y ddarpariaeth o gymorth. Edrychwyd ar gryfderau a gwendidau'r modelau presennol ac adolygwyd y gwahanol fodelau i ganfod a fyddent yn cwrdd â'r gwahanol fathau o anghenion am gymorth sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid.

[8] NICE (2013) Autism: recognition, referral, diagnosis and management of adults on the autism spectrum. [NICE clinical guideline 142].

## Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol i Gymru

4.5 Roedd y dystiolaeth a gafwyd o'r ymarfer cwmpasu'n dangos yn glir fod dull integredig o gynorthwyo pobl sydd ag awtistiaeth yn gweithio'n dda mewn nifer o ardaloedd y tu allan i Gymru. Mae'n glir y gallai gwasanaeth awtistiaeth integredig fod yn gyfrwng effeithiol hefyd i wella gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion ledled Cymru. O 2016 bydd Llywodraeth Cymru yn lansio Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol i Gymru, **a chyllid datblygu o £6 miliwn yn gefn iddo**.

4.6 Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn dod â thimau niwroddatblygiadol ASD i blant o fewn byrddau iechyd at ei gilydd i ddarparu ymyriadau (therapïau) asesu ac arbenigol diagnostig i blant sydd ag ASD. Bydd darpariaeth ddiagnostig newydd ar gael i oedolion hefyd drwy ddatblygu timau arbenigol i oedolion. Datblygir timau cymorth cymunedol newydd yn ardaloedd y byrddau iechyd. Bydd y timau hyn yn cynnig dull galluogi, drwy fodel cydgynhyrchu, gan ddarparu cyngor ar ymddygiad, cymorth lefel isel, mynediad i wasanaethau cymunedol, rhaglenni cymorth a chyfeirio. Bydd y gwasanaeth hwn hefyd yn darparu hyfforddiant i rieni a gofalwyr ar gyfer pob oedran. Cydgysylltir yn agos â'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc i sicrhau llwybrau asesu cyson ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

4.7 Wrth roi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol ar waith, byddwn yn adeiladu ar sail gwasanaethau presennol drwy ddatblygu gallu proffesiynol a gwella sgiliau, er mwyn sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau asesu diagnostig a chymorth ar ôl diagnosis. Bydd y gwasanaethau newydd wedi'u seilio ar yr arferion da yng nghanllawiau NICE ac yn canolbwyntio ar weithio amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn cael gwasanaethau a chymorth cydgysylltiedig.

4.8 Dull gweithredu cenedlaethol fydd hwn sy'n sicrhau cysondeb rhwng ardaloedd a bod pobl ag awtistiaeth yn gallu cael gafael ar wasanaethau tebyg ym mhob rhan o Gymru, gan ystyried gwahaniaethau rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei ddatblygu drwy bartneriaeth â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru: bydd hyn yn hyrwyddo cydweithio rhwng cyrff iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Bydd y gwasanaeth ar waith yn ardaloedd yr holl fyrddau iechyd erbyn 2019. Wrth i ni ddatblygu'r gwasanaeth a'i roi ar waith byddwn yn cynnwys pobl sydd ag awtistiaeth, i sicrhau bod y gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion a nodwyd.

## Anghenion Gofal Iechyd a Chymorth Arbenigol

4.9 Mae rhai pobl ag awtistiaeth a/neu anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth yn gallu cael gofal drwy wasanaethau gofal iechyd arbenigol. Gellir cael y rhain yn y GIG, mewn ysbytai a thrwy wasanaethau eraill a ddarperir gan y sector gofal iechyd annibynnol. Mewn rhai achosion, oherwydd natur arbenigol y gofal, ni fydd y lleoliadau'n rhai lleol. Mae'r byrddau iechyd a'r Tîm Comisiynu Cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y lleoliadau'n briodol i bobl a'u bod yn rhoi gofal priodol. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cofrestru ac yn arolygu'r ysbytai hyn. Cafwyd argymhelliad polisi ar gyfer adolygu'r dull o gomisiynu'r gwasanaethau hyn a

datblygu darpariaeth o wasanaethau lleol mwy priodol. Adroddir ar y cynnydd ar weithredu'r polisi hwn o dan y cynllun cyflawni.

4.10 Mewn rhai achosion, bydd anableddau dysgu dwys iawn gan bobl sydd ag ASD ac mae ymddygiad heriol yn achosi problemau iddynt. Gallant hefyd fynd yn sâl o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl a gall hyn greu'r perygl o wneud niwed difrifol iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill. Os bydd hyn yn digwydd, gall fod yn angenrheidiol i feddyg neu ymarferydd a gymeradwywyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl argymell eu bod yn cael eu trin o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r cod ymarfer ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar ac mae ar gael yma:
http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/816/mental%20health%20act%201983%20code%20of%20practice%20for%20wales.pdf

4.11 Mae pennod yn y cod ymarfer diwygiedig sy'n ymwneud yn benodol â phobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Seiliwyd y bennod hon ar egwyddorion yr opsiynau lleiaf cyfyngol dros y cyfnod byrraf ac mae'n disgwyl i ddulliau cadarnhaol gael eu defnyddio i helpu pobl i reoli eu hymddygiad heriol ac i wella. Mae argymhellion hefyd ar gyfer hyfforddi staff sy'n gweithio o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gyda phobl sydd ag ASD. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n goruchwylio'r ffordd y mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso wrth weithio gyda phobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth mewn gwasanaethau iechyd.

### Ymyriadau ar gyfer Teuluoedd a Gofalwyr

4.12 Mae nifer mawr o ymyriadau a all fod ar gael i helpu pobl sydd ag awtistiaeth. Mae'n bwysig bod y rhain yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod, os yw'n berthnasol, yn gyson â chanllawiau a gwybodaeth a roddwyd gan NICE. Mae gwefan Research Autism yn darparu gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth am effeithiolrwydd ymyriadau, triniaethau a therapïau. Mae manylion cyswllt yn atodiad 6.

4.13 Mae awtistiaeth yn effeithio ar bobl eraill heblaw'r unigolyn sydd â'r anhwylder. Mae'n effeithio ar ei deulu a'i ofalwyr. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl i ofalwyr gael asesiad o'u hanghenion i'w galluogi i barhau yn eu rôl gofalu.

4.14 Yn ogystal â hyn, mae gwasanaethau cymorth ychwanegol o lawer math i helpu plant a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn targedu anghenion a grwpiau oedran penodol ac yn cynnwys:

- Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf – ei phwrpas yw gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am Teuluoedd yn Gyntaf yn http://www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting-support-guidance/help/familiesfirst/?lang=en

- Rhaglen Cymorth Cynnar – ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau cymorth i blant anabl ifanc wedi'u cydgysylltu'n well. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Plant yng Nghymru http://www.earlysupportwales.org.uk/

- Dechrau'n Deg – mae'n targedu plant o dan bedair blwydd oed yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y

Cydgysylltydd Dechrau'n Deg yn eich ardal http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy

- Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn hyrwyddo cydweithio i gwrdd ag anghenion rhai plant a theuluoedd sydd â phroblemau cymhleth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn http://gov.wales/topics/health/socialcare/working/ifst/ifsspublications/briefing/?lang=cy

4.15 Rydym yn gwybod bod rhagor y gallwn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol sy'n helpu teuluoedd a gofalwyr a byddwn yn rhoi sylw i hyn wrth ddarparu adnoddau a hyfforddiant i grwpiau proffesiynol.

**Byddwn yn cymryd y camau canlynol:**

- Cynllunio a darparu gwasanaeth awtistiaeth integredig yng Nghymru i gwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu.

- Monitro'r ffordd y mae Deddf Iechyd Meddwl yn cael ei chymhwyso at bobl sydd ag ASD, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau dysgu hefyd a gweithredu'r canllawiau diweddaraf ar yr arfer gorau wrth weithio gyda phobl sydd ag ASD a/neu'r rheini sy'n dod o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

## PENNOD PUMP

## Addysg a Chyflogaeth

5.1 Mae'r gallu i gael darpariaeth dda o addysg a chyngor a chymorth ar yrfaoedd yn gallu cael effaith gadarnhaol barhaol ar fywydau plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag awtistiaeth. Roedd addysg a chyflogaeth wedi'u nodi'n flaenoriaethau ar gyfer gweithredu gan randdeiliaid, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth yn ystod eu haddysg, drwy gyflwyno deddfwriaeth newydd ar anghenion dysgu ychwanegol a thrwy wella'r cymorth parhaus a fydd ar gael wedi iddynt ddod yn oedolion. Rydym wedi cefnogi rôl y Cennad Cyflogaeth ASD ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru a chyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle. Rydym hefyd yn cydweithio â'r Loteri Fawr i gyfeirio arian o gyfrifon segur at gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i gael cyflogaeth.

### Plant a Phobl Ifanc

5.2 Mae gan bob plentyn a pherson ifanc ag awtistiaeth yr un hawliau i addysg a chyflogaeth â'i gyfoedion. Bydd anghenion plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn amrywio ond rydym yn ymwybodol y bydd nifer ohonynt yn ei chael yn anodd dilyn y cwricwlwm a gwireddu eu potensial.

5.3 Er mwyn i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth gael profiad llwyddiannus a hapus yn eu haddysg, mae'n bwysig bod ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn darparu amgylchedd dysgu lle bydd plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn cael cwricwlwm sydd wedi'i wahaniaethu'n briodol, yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu deall gan eu cyfoedion a staff addysgu a staff eraill.

5.4 Yn ein digwyddiadau ymgynghori, roedd rhieni wedi mynegi pryder ynghylch y cymorth sydd ar gael i blant o oedran ysgol, mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbenigol. Roedd gwelliannau pwysig y gellid eu gwneud, yn enwedig mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn yr ysgol a'r gymuned o'i chwmpas. Rydym wedi ymdrin â hyn yn rhannol drwy ddatblygu adnoddau hyfforddi ar gyfer staff proffesiynol sydd wedi'u disgrifio yn y Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD, i hybu ymwybyddiaeth a darparu pecynnau hyfforddi ar gyfer cymuned yr ysgol. Mae rhagor o wybodaeth am yr adnoddau hyn ar wefan ASDinfowales.

### Diwygio Anghenion Addysgol Arbennig

5.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyn hyn ei bod yn bwriadu cyflwyno fframwaith deddfwriaethol unedig yn lle'r systemau deddfwriaethol presennol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAA ac AAD) i helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol nes eu bod yn 25 oed. Ymgynghorwyd ar Fil drafft ar gyfer hynny yn ystod 2015. Mae'r newid mewn deddfwriaeth yn elfen fach mewn diwygio ehangach ar y system gymorth i ddysgwyr sydd ag AAA ac AAD. Y nod cyffredinol wrth weithredu fel hyn yw gwella'r broses ar

gyfer adnabod anghenion yn gynnar ac ymyrryd yn effeithiol, gan sicrhau yr un pryd fod anghenion y dysgwr yn cael eu diwallu o hyd drwy gydol ei gyfnod mewn addysg.

5.6 Yn 2015, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau dwy astudiaeth feirniadol o sgiliau a gwybodaeth y gweithlu addysg; ac asesiad o allu'r gwasanaethau arbenigol i gefnogi dysgwyr a lleoliadau addysg. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid cyflawni'n awr i ymdrin ag anghenion am ddatblygu'r gweithlu a bennwyd drwy'r astudiaethau hyn. Drwy sicrhau bod ein gweithlu'n cael yr offer angenrheidiol a'i fod yn hyderus wrth ddefnyddio'r offer hyn, bydd llai o angen i atgyfeirio dysgwyr at wasanaethau cymorth arbenigol. Bydd hyn, yn ei dro, hefyd yn rhoi'r gallu i wasanaethau arbenigol ganolbwyntio'n fwy ar y dysgwyr hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth.

5.7 Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau cyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn yr holl leoliadau addysg. Darparwyd cymorth ariannol i bob awdurdod lleol a Sefydliad Addysg Bellach i'w helpu i roi hyn ar waith, a chyhoeddwyd amrywiaeth o adnoddau sydd bellach ar gael ar wefan Dysgu Cymru. Bydd cyflwyno'r dull hwn o gynllunio'n dod â manteision i ddysgwyr yn y tymor agos a bydd yn sylfaen hanfodol ar gyfer ein diwygiadau deddfwriaethol.

### Pontio

5.8 Yn ôl yr adborth a gawsom gan rieni, mae'n glir bod y trefniadau pontio ar ôl 16 oed ar gyfer plant ag ASD yn gallu achosi straen. Er mwyn cael darlun o'r trefniadau presennol, rydym wedi comisiynu gwaith i ddisgrifio trefniadau pontio o'r ysgol i addysg bellach a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Ar ôl ei gyhoeddi, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol am yr hyn sy'n gweithio a'r gwelliannau y gellir eu gwneud mewn perthynas â phontio ôl-16.

5.9 Mewn perthynas â phontio o golegau, rydym wedi gofyn i Estyn (yr arolygiaeth addysg yng Nghymru) edrych ar y trefniadau mewn colegau prif ffrwd a cholegau arbenigol ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr a'r graddau y mae'r colegau hyn yn paratoi dysgwyr ar gyfer pontio o'r coleg. Bydd Estyn yn adrodd ar ei ganfyddiadau mewn perthynas â cholegau arbenigol annibynnol yng Nghymru yng ngwanwyn 2016; ac adroddir ar ei ganfyddiadau mewn perthynas â cholegau addysg bellach yng ngwanwyn 2017.

### Addysg Bellach

5.10 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i golegau addysg bellach yng Nghymru i'w helpu i sicrhau'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i wneud eu darpariaeth yn hygyrch i bobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

5.11 Mae hawl gan ddysgwyr a gafodd ddatganiad AAA sydd yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol ac am gael addysg bellach neu hyfforddiant i gael Cynllun Dysgu a Sgiliau. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei lunio gan Gyrfa Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd yn disgrifio anghenion penodol y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant ac yn nodi darpariaeth addas i gwrdd â'r anghenion hynny. Pwrpas y

Cynllun yw hwyluso pontio drwy helpu i sicrhau bod cymorth dysgu priodol ar gael i ddysgwyr unigol sydd ag anawsterau mwy cymhleth pan fyddant yn cael eu derbyn i goleg.

### Addysg Bellach Arbenigol

5.12 Mewn rhai achosion, bydd angen cymorth ar y person ifanc nad yw ar gael ond mewn coleg arbenigol annibynnol. Os bydd y Cynllun Dysgu a Sgiliau a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses pontio AAA yn dangos bod darpariaeth arbenigol yn hanfodol i gwrdd ag anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant, yna bydd Gyrfa Cymru, ynghyd â'r person ifanc a'i deulu, yn coladu'r dystiolaeth honno ac yn paratoi ac yn cyflwyno cais am gyllid i Lywodraeth Cymru i sicrhau'r ddarpariaeth honno. Mae ceisiadau am gyllid ar gyfer mis Medi yn cael eu cyflwyno erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob cais i benderfynu a yw'n dod o dan y dyletswyddau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

5.13 Cyhoeddwyd dogfen wybodaeth sy'n disgrifio'r broses ar gyfer penderfynu ar ariannu lleoliadau i ddysgwyr mewn colegau arbenigol gan Weinidogion Cymru. Mae ar gael yn http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/p-16-funding-for-learners-with-learning-difficulties/?skip=1&lang=cy

### Codi Ymwybyddiaeth a Datblygu Sgiliau ymysg y rheini sy'n darparu cymorth cyflogaeth

5.14 Datblygwyd pecyn hyfforddi i'r rheini sy'n darparu cymorth cyflogaeth prif ffrwd i godi ymwybyddiaeth a darparu cyngor ar y ffordd y gall gweithwyr proffesiynol addasu eu hymarfer. Mae'r rhaglen 'Gweithio gydag Awtistiaeth' ar gael ar wefan http://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=4, ac mae'n cynnwys ffilm hyfforddi, cyflwyniad hyfforddi a chynllun ardystio. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael hefyd i ategu'r rhaglen er mwyn helpu staff proffesiynol i weithio o ddydd i ddydd gyda phobl sydd ag awtistiaeth. Byddwn yn annog staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth cyflogaeth i ddilyn y rhaglen hyfforddi fyr hon.

### Pobl Ifanc – cymorth dysgu seiliedig ar waith

5.15 Bydd pobl ifanc ag awtistiaeth yn gymwys i gymryd rhan mewn cyfleoedd Dysgu Seiliedig ar Waith fel Hyfforddeiaethau a Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru (Barod am Waith cyn hynny). Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn gallu cael cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi am wneud y ddarpariaeth dysgu'n hygyrch i ddysgwyr sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu.

Hyfforddeiaethau – Mae'r rhaglen hon yn cynorthwyo pobl ifanc 16-18 oed i gael cyflogaeth barhaol drwy eu helpu i gynyddu eu sgiliau a'u cymhelliant. Nod y rhaglen yw cynnig darpariaeth bwrpasol a theilwredig i ddelio ag unrhyw rwystrau neu faterion sy'n atal y person ifanc rhag symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Prentisiaethau – Mae'r rhaglen hon yn cynnig pecyn unigryw o gymorth, cymwysterau a sgiliau gydol oes i bawb sy'n cymryd rhan.

Twf Swyddi Cymru – Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru yn darparu cymorth cyflogaeth i bobl ifanc.

Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru – mae gwybodaeth am hyn yn yr adran ar gymorth i oedolion isod.

### Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI)

5.16 Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI**)** a gyhoeddwyd yn 2013 yn ceisio symleiddio'r llwybr addysg a chyflogaeth ar ôl addysg orfodol ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'n parhau â'r gwaith a wnaed yn barod i wella llythrennedd a rhifedd er mwyn torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad.

5.17 O dan y FfYDI rydym wedi datblygu Gwarant Ieuenctid, sef cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant i berson ifanc sy'n pontio am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed.

5.18 Mae'r offeryn Prosbectws Ardal Gyffredin, a ddatblygwyd gan Gyrfa Cymru, wedi'i roi ar waith ledled Cymru erbyn hyn. Mae'n caniatáu i bobl ifanc weld y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer dysgu ôl-16.

### Prosiect Ar y Blaen/Symud Ymlaen

5.19 Mae'r Rhaglen Ar y Blaen yn cael ei gweithredu gan y Loteri Fawr a'i hariannu ag arian sydd wedi bod mewn cyfrifon segur mewn banciau a chymdeithasau adeiladu am 15 mlynedd neu ragor.

5.20 Y nod ar gyfer y gyfran gyntaf o gyllid "Ar y Blaen" oedd ymgysylltu, paratoi ac ysgogi pobl ifanc 16–18 oed i dderbyn lleoliad gwaith â chymorth am dâl am 25 awr yr wythnos dros chwe mis i wella eu cyfle i symud ymlaen i gyflogaeth barhaol, dysgu pellach neu hyfforddiant, drwy gynyddu eu sgiliau cyflogadwyedd. Canolbwyntiwyd ar bobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

5.21 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â'r Loteri Fawr ar ail ran y rhaglen, Ar y Blaen 2, a fydd ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anabledd/anhawster dysgu, ac mae hyn yn cynnwys ASD. Nod y rhaglen yw creu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc drwy ymgysylltu â phobl ifanc a chyflogwyr. Bydd yn darparu'r cymorth dwys sydd ei angen ar y bobl ifanc hyn i gadw cyflogaeth barhaus ac ystyrlon. Rydym yn rhag-weld y bydd y prosiect hwn wedi'i lansio erbyn Awst 2016. Dyfarnwyd un contract am hyd at £10 miliwn am brosiect pum mlynedd o weithgareddau a fydd yn cychwyn erbyn Awst 2016.

## Cymorth cyflogaeth i oedolion ag ASD

5.22 Mae'r cyfraddau cyflogaeth ymysg oedolion sydd ag ASD yn is o lawer na'r rheini ar gyfer y boblogaeth gyffredinol ac mae nifer o resymau am hyn. Roedd y CGS ASD cyntaf yn cydnabod bod anghenion am gymorth gan nifer mawr o oedolion mwy abl sydd ag awtistiaeth, fel yr angen am gymorth i ymdopi â gorbryder ac iselder, ond nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol a'i bod yn bosibl bod nifer mawr ohonynt heb gael diagnosis ffurfiol o ASD. Mae Pennod 4 yn amlinellu'r ffordd rydym yn ceisio cwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu, a bydd hyn yn cynnwys cymorth i oedolion i ddod o hyd i gyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth neu waith gwirfoddol.

5.23 Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle, er 2010 mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rôl y Cennad Cyflogaeth ASD (CC). Estynnwyd y rôl yn Chwefror 2015 ac mae'r CC wedi datblygu cysylltiadau rhagorol â Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru, gan ddarparu cyngor arbenigol i alluogi staff lleol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i helpu pobl ag awtistiaeth i gael cyflogaeth. Ffurfiwyd cysylltiadau hefyd â grwpiau cyflogwyr fel y Ffederasiwn Busnesau Bach. Wrth gyflawni'r cynllun gweithredu hwn, byddwn yn asesu pa gamau ychwanegol sydd eu hangen i ymgysylltu â chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle ac i asesu a yw'r cynnydd mewn gwybodaeth yn arwain at well canlyniadau mewn cyflogaeth.

## Sgiliau Dyfodol Cymru a Chymorth Cyflogaeth

5.24 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r angen i wella sgiliau ôl-19 er mwyn sicrhau bod Cymru'n datblygu'n genedl sgiliau uchel. Mae ein **Datganiad Polisi ar Sgiliau**, a gyhoeddwyd yn 2013 yn amlinellu'r polisi ar sgiliau a chyflogaeth y dyfodol ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Ymhlith y prif gamau gweithredu o dan y polisi y mae:

- Helpu unigolion sy'n chwilio am waith i gael lle mewn rhaglenni cymorth priodol yng Nghymru.
- Rhoi'r gallu i unigolion gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wella eu sgiliau yn ogystal ag atal unigolion agored i niwed rhag colli eu lle yn y gweithlu.
- Helpu unigolion i wella eu Sgiliau Hanfodol fel y byddant yn y lle gorau i fanteisio ar gyfleoedd gwaith neu symud ymlaen yn eu gwaith.

5.25 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio symleiddio'r ffordd o gael gafael ar gymorth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau. Mae'r **Porth Sgiliau** yn darparu gwybodaeth am ddysgu a sgiliau mewn un lle, gan weithio gyda'r sector gwirfoddol a sefydliadau arbenigol eraill i sicrhau bod unigolion anabl a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu.

**Byddwn yn cymryd y camau gweithredu canlynol:**

- Monitro deddfwriaeth a cheisio dylanwadu ar ddatblygiadau polisi ar gyfer pontio ôl-16 ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg gan weithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, yn enwedig lle mae diwygio ac ailalinio'n digwydd.

- Monitro'r gweithredu ar brosiect Arian Cyfrifon Segur y Loteri Fawr ar gyfer pobl sydd ag anawsterau/anableddau dysgu gan gynnwys ASD.

## PENNOD CHWECH

## Cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

6.1 Rydym eisoes wedi cyflawni llawer drwy gymryd camau i ddelio â'r meysydd a oedd yn peri'r pryder mwyaf drwy weithredu'r CGS ASD cyntaf a'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD. Mae'r gwerthusiad o'r CGS ASD wedi ein galluogi i asesu beth oedd wedi gweithio'n dda a lle gellid gwella gwasanaethau. Yn y diweddariad o'r CGS ASD rydym wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn ogystal â barn rhanddeiliaid arbenigol. Rydym wedi amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac wedi nodi'r meysydd lle byddwn yn cymryd camau i sicrhau rhagor o welliannau yn y cymorth a'r gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr.

6.2 Bydd angen cyflawni'r diweddariad o'r CGS ASD mewn ffordd dryloyw. Nodwyd yn y gwerthusiad annibynnol o'r CGS ASD cyntaf ei bod yn anodd asesu ei effaith am nad oedd ffyrdd clir o fesur canlyniadau ac am fod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd o weithredu'r seilwaith ASD rhwng awdurdodau lleol. Nid oedd trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu ychwaith fel ei bod yn anodd i randdeiliaid asesu'r cynnydd a wnaed. Rydym yn gwybod hefyd y gall fod yn anodd dod o hyd i wybodaeth am nifer y bobl ag awtistiaeth sy'n derbyn cymorth neu'n ceisio cael gafael ar wasanaethau. Byddwn yn gwneud trefniadau annibynnol ar gyfer gwerthuso'r diweddariad o'r cynllun gweithredu a fydd yn pennu canlyniadau mesuradwy wrth ddechrau ei gyflawni. Drwy wneud hyn byddwn yn gallu creu darlun o'r gwelliannau ym mywydau pobl ag awtistiaeth ac adnabod bylchau mewn gwasanaethau drwy ofyn am adborth gan randdeiliaid.

6.3 Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos sut y mae'r diweddariad o'r strategaeth yn cael effaith, byddwn yn cyflawni'r diweddariad o'r CGS ASD drwy gyhoeddi cynllun cyflawni newydd a fydd yn parhau â llwyddiant y Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD. Bydd y cynllun yn nodi camau gweithredu a chanlyniadau. Byddwn hefyd yn penodi Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD i fonitro'r camau cyflawni a darparu cyngor ac arweiniad i ni. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, gan ofalu eu bod wedi'u cynrychioli ar y grŵp cynghori a thrwy ymgynghori rheolaidd.

Y camau gweithredu a gymerwn drwy'r cynllun cyflawni fydd:

- Parhau i gefnogi rôl y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD ar gyfer darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar awtistiaeth i Lywodraeth Cymru, grwpiau proffesiynol a rhanddeiliaid.

- Parhau i gefnogi a datblygu gwefan ASDinfowales er mwyn darparu ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth a chyngor ar awtistiaeth yng Nghymru.

- Canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant a'u darparu yn y meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys ysgolion, nyrsys, gwasanaethau hamdden a chyflogwyr.

- Parhau i gefnogi'r Fforwm ASD er mwyn galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i rannu arferion da.

- Sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau diagnostig ASD i blant drwy'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a monitro ei llwyddiant.

- Sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau diagnostig i oedolion a chymorth ar ôl cael diagnosis drwy ein cynlluniau ar gyfer gwasanaeth integredig a monitro llwyddiant.

- Parhau i ddarparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol i leihau'r effaith o "gysgodi diagnostig" a sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn cael mynediad cyfartal at ofal iechyd o ansawdd da.

- Cynllunio a darparu gwasanaeth awtistiaeth integredig yng Nghymru i gwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu.

- Rhoi trefniadau annibynnol ar waith i werthuso'r diweddariad o'r CGS ASD a fydd yn pennu ffyrdd o fesur canlyniadau cyn ei weithredu.

- Monitro'r ffordd y mae Deddf Iechyd Meddwl yn cael ei chymhwyso at bobl sydd ag ASD, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau dysgu hefyd a gweithredu'r canllawiau diweddaraf ar yr arfer gorau wrth weithio gyda phobl sydd ag ASD a/neu'r rheini sy'n dod o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

- Monitro deddfwriaeth a cheisio dylanwadu ar ddatblygiadau polisi ar gyfer pontio ôl-16 ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg gan weithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, yn enwedig lle mae diwygio ac ailalinio'n digwydd.

- Monitro'r gweithredu ar brosiect Arian Cyfrifon Segur y Loteri Fawr ar gyfer pobl sydd ag anawsterau/anableddau dysgu gan gynnwys ASD.

- Datblygu Cynllun Cyflawni i gyd-fynd â'r diweddariad o'r CGS ASD gyda chanlyniadau mesuradwy.

- Sefydlu Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD i fonitro cynnydd wrth gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

6.4 Roedd y llwyddiant wrth gyflawni'r CGS ASD cyntaf yn dibynnu ar waith mewn partneriaeth ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Rydym am weld y dull cydweithredol hwn yn parhau ac mae angen cydnabod rôl y sector gwirfoddol drwy sicrhau ei fod yn cael cyfleoedd i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y diweddariad o'r CGS ASD a bod yn gyfrifol am wireddu rhai o'r canlyniadau. Ar lefel strategol, bydd sefydliadau'r sector gwirfoddol wedi'u cynrychioli ar y Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD.

6.5 Mewn termau ymarferol byddwn yn sicrhau bod sefydliadau'r trydydd sector yn cael cyfleoedd i ddangos mai nhw sydd yn y lle gorau i wireddu'r canlyniadau a gytunir yn y Cynllun Cyflawni. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gyllid a fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer prosiectau i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn cynnwys disgwyliad am gyflawni ar y cyd; y bydd sefydliadau gwirfoddol yn gallu gwneud ceisiadau am y cyllid sydd ar gael; ac y bydd y system ymgeisio'n agored a thryloyw.

## Cynnwys Rhanddeiliaid

6.6 Er mwyn sicrhau bod pobl ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan wrth gyflawni'r CGS ASD, byddwn yn sicrhau y bydd rhan iddynt yn y broses o fonitro cynnydd a'u bod yn gallu cyfrannu adborth ar welliannau posibl. Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Cyhoeddi'r diweddariad o'r CGS ASD a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar ein gwefan www.wales.gov.uk ac ar wefan ASDinfowales http://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=4

- Sicrhau bod y Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD yn cynnwys aelodau sydd ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr a sefydliadau gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl ag awtistiaeth er mwyn rhoi eu barn am ei effaith.

- Llunio adroddiad blynyddol ar gynnydd ar weithredu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar y wefan www.wales.gov.uk ac ar wefan ASDinfowales http://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=4 a byddwn yn gofyn am adborth am y cynnydd a wnaed.

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n eang â'r holl randdeiliaid, drwy arolygon, cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd a digwyddiadau wedi'u teilwra i gwrdd ag anghenion pobl ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr, i ofyn am eu barn am y cynnydd ar weithredu'r diweddariad o'r CGS ASD a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

## Y Camau Nesaf

6.7 Bydd yr ymgynghoriad ar y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD yn 12 wythnos o hyd. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn dadansoddi'r adborth a gawn ac yn gofyn am gyngor gan y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD ar welliannau posibl. Byddwn yn cynnwys hyn yn y fersiwn derfynol o'r diweddariad o'r CGS ASD a gyhoeddir yn ystod 2016. Bydd cynllun cyflawni gyda'r ddogfen hon a fydd yn cynnwys canlyniadau mesuradwy.

## ATODIAD UN

## Aelodau Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD

| Enw | Sefydliad | |
|---|---|---|
| Jim Crowe | Anabledd Dysgu Cymru | 2013 – presennol |
| Nadine Honeybone | Rhiant/Sylfaenydd Cyfeiriadur Awtistiaeth | 2013 – presennol |
| Yr Athro Sue Leekam | Cyfarwyddwr, Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd | 2013 – presennol |
| Johanna Manikiza | Swyddog Cenedlaethol Arweiniol ar ASD, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 2013 – presennol |
| Naomi Alleyne | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 2013 – 2014 |
| Hugh Morgan OBE | Awtistiaeth Cymru | 2013- 2014 |
| Joe Powell | Pobl yn Gyntaf Cymru | 2013 – presennol |
| Meleri Thomas | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru | 2013 – presennol |
| Kevin Tribble | Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 2013 – 2014 |
| Sundari Umapathy | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 2013 – presennol |
| Simon Burch | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | 2013 – 2014 |
| Bernard Boniface | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | 2014 – 2015 |
| Christine Griffiths | Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru | 2013 – presennol |

| | | |
|---|---|---|
| Robert Lloyd Griffiths | Cennad Cyflogaeth Awtistiaeth | 2013 – 2014 |
| Keith Ingram | Cennad Cyflogaeth Awtistiaeth | 2015 – presennol |
| Jacquelyn Elias | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg | 2014 - presennol |

### Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynghori ar bolisi llywodraeth

| | |
|---|---|
| Penny Hall – Cadeirydd | 2013- presennol |
| Julie Annetts | 2013 – presennol |
| Ruth Conway a Bethan Cowan | 2013 – presennol |
| Jacky Davies | 2013 - presennol |
| Jeni French | 2013 – 2014 |
| Helen Chapman a Vicky Best | 2013 - presennol |
| Nick Lee a Tracy Samuel | 2014 – presennol |
| Sue Beacock | 2015 – presennol |

Ysgrifenyddiaeth: Alyson Collins a Susan Ellis, Llywodraeth Cymru

## ATODIAD DAU

### Aelodau’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD

| Enw | Sefydliad | |
|---|---|---|
| Chris O’Connor, Cadeirydd | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 2014 – 2016 |
| Carolyn Samuel | Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg | 2014 – 2015 |
| Alka Ahuja | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 2014 – 2015 |
| Anne Marie McKigney | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 2014 – 2015 |
| Julie Mullis | Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro | 2014 – 2015 |
| Jenny Hunt | Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro | 2014 – 2015 |
| Tansy Mayfield | Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro | 2014 – 2016 |
| Darrell Clarke | Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 2014 – 2015 |
| Zed Sibanda | Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 2014 – 2015 |
| Juan Delport | Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 2014 – 2016 |
| Catrin Simpson | Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 2014 – 2015 |
| Rebecca James | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 2014 – 2016 |
| Johanna Manikiza | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 2014 – 2016 |
| Louise Albert | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru | 2014 – 2016 |
| Catherine Jones | Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru | 2014 – 2016 |
| Sue Leekam | Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru | 2014 – 2016 |
| Tracy Jelfs | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | 2014 – 2016 |
| Christine Griffiths | Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru | 2014 – 2016 |
| Heather Payne | Iechyd, Llywodraeth Cymru | 2014 – 2015 |
| David Williams | Iechyd, Llywodraeth Cymru | 2014 – 2016 |

| | | |
|---|---|---|
| Penny Hall | Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru | 2014 – 2016 |
| Julie Annetts | Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru | 2014 – 2016 |
| Wendy Thomas | Cyngor Sir Gaerfyrddin | 2014 – 2016 |
| Jacquelyn Elias | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg | 2014 – 2016 |
| Sarah Dudley | Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 2015 – 2016 |
| Alan Downey | Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | 2015 – 2016 |
| Christine Fretwell | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 2015 – 2016 |
| Phil Dore | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 2015 – 2016 |
| Helen Matthews | Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 2015 – 2016 |

Ysgrifenyddiaeth: Alyson Collins a Susan Ellis, Llywodraeth Cymru

## ATODIAD TRI

## Crynodeb o Ganfyddiadau'r Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2008

Ar ddiwedd 2012 cafodd yr Uned Pobl a Gwaith ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol allanol o'r CGS ASD. Roedd dau brif amcan i'r gwerthusiad.

- Cynnal asesiad cynhwysfawr o argaeledd a bylchau mewn data er mwyn cyfrannu at ddatblygu dangosyddion i fesur cynnydd;
- Asesu'r modd y mae'r CGS ASD yn cyflawni ei nodau gwreiddiol.

Cynhaliodd yr ymchwilwyr werthusiad seiliedig ar theori a chasglu data o ffynonellau amrywiol gan gynnwys:

- Adolygiad desg o lenyddiaeth a data.
- Cyfweliadau a thrafodaethau â phobl sydd ag ASD, eu rhieni a gofalwyr a gwahanol randdeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, academaidd a gwirfoddol gan gynnwys swyddogion arweiniol/cydgysylltwyr ASD.

### Prif Ganfyddiadau

- Ers lansio'r CGS ASD yn 2008, mae seilwaith ASD cenedlaethol a lleol wedi'i ddatblygu sydd wedi helpu i godi proffil ASD.
- Roedd y seilwaith yn canolbwyntio ar hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth a chyrhaeddwyd nifer mawr o wasanaethau amrywiol. Cafwyd gwybod bod y gwelliant mewn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ond mae'r ddarpariaeth wedi bod yn anwastad ar draws gwasanaethau a grwpiau, felly mae angen gwneud rhagor o waith.
- Mae mwy o ymwybyddiaeth o ASD, sydd wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion o oedran ysgol sy'n cael diagnosis. Cafwyd mwy o bwysau ar wasanaethau diagnostig sydd wedi cyfrannu at ymestyn amseroedd aros.
- Mae wedi gwella'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn addysg, ac wedi'i gwneud yn fwy tebygol i anghenion oedolion ifanc gael eu hadnabod ac mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi hyn.
- Mae gwelliannau mewn gwasanaethau diagnostig i oedolion yn ganlyniad allweddol. Cafwyd gwasanaethau newydd mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae nifer yr oedolion sy'n cael diagnosis yn fach ac mae bylchau a gwendidau mewn gwasanaethau diagnostig a gwasanaethau cwnsela cyn ac ar ôl diagnosis mewn rhai ardaloedd.

- Mae effaith y cyfraddau diagnosis uwch wedi'i chyfyngu gan drothwyon uchel ar gyfer cymhwysedd i dderbyn gofal cymdeithasol a diffyg gwasanaethau arbenigol i oedolion sydd heb anabledd dysgu cydfodol.
- Cafwyd gwelliannau mewn trefniadau pontio er 2008, ond mae diffyg gwasanaethau i oedolion ag ASD yn gallu cyfyngu ar effaith y cynllunio ar gyfer pontio, ac mae nifer mawr o oedolion yn ei chael yn anodd pontio i gyflogaeth a byw'n annibynnol.
- Mae gwell cyfraddau diagnosis yn ystod plentyndod wedi arwain at gynnydd yn nifer yr oedolion ifanc ag ASD. Mae hyn yn golygu ei bod yn fwy tebygol o lawer y bydd eu hanghenion yn cael eu deall a'u diwallu mewn addysg bellach ac uwch.
- Mae hyfforddiant a mesurau i godi ymwybyddiaeth o ASD wedi gwella'r gallu mewn rhai gwasanaethau cyflogaeth ond, er hynny, mae oedolion yn ei chael yn anodd cael gafael ar gymorth effeithiol i ddod o hyd i swyddi ac mae'r cyfraddau cyflogaeth yn isel o hyd.
- Pwrpas y swyddi yn y prosiect Monitro a Chymorth Cymunedol oedd dangos y ffordd at wasanaethau i oedolion ag ASD sydd ag anghenion cymorth lefel isel. Mae diffyg gwasanaethau cymorth statudol wedi lleihau effaith y gwaith hwn.
- Mae rhieni a gofalwyr yn cael gwell mynediad at wybodaeth o ganlyniad i sefydlu'r seilwaith a gwefan ASD.
- Mae rhieni a gofalwyr yn nodi'n gyson ei bod yn anodd o hyd iddynt gael gwybod am gymorth a gwasanaethau a'u bod yn profi llawer o straen a gorbryder o ganlyniad.

### Casgliadau

Roedd rhanddeiliaid wedi croesawu'r CGS ASD. Roedd llawer yn teimlo ei fod wedi cyfrannu at godi proffil ASD ac ymwybyddiaeth ohono, ei fod wedi rhoi'r gallu i ddatblygu seilwaith lleol a'i bod yn ymddangos ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl ag ASD, ar eu teuluoedd ac ar weithwyr proffesiynol.

Roedd nifer o wendidau yn y CGS ASD, a oedd yn cynnwys diffyg blaenoriaethau clir; diffyg manylion o ran yr hyn sydd ei angen a strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd gwan a oedd yn ei gwneud yn anodd llywio datblygiadau ledled Cymru. Mae hyn wedi cyfrannu at effaith anwastad ledled Cymru, fel bod y strategaeth wedi helpu i greu ymarfer da mewn rhai mannau ond wedi'i chael yn anodd creu newid systemig. Roedd y model rhesymeg a ddefnyddiwyd wedi tynnu sylw at rai cryfderau a gwendidau allweddol, yn benodol:

- Roedd prosiectau lleol a rhanbarthol wedi chwarae rhan allweddol drwy greu newid a gwella canlyniadau, ond wedi cyfrannu at effaith anwastad ledled Cymru.

- Roedd effaith y seilwaith ar gomisiynu'n gyfyngedig, gan ei fod yn canolbwyntio ar wasanaethau a gomisiynwyd ganddo ef yn hytrach na'r rheini a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd.
- Nid oedd safonau cenedlaethol newydd wedi'u datblygu ar gyfer addysg a phontio ac roedd hyn yn cyfyngu ar effaith y CGS.
- Mewn nifer o feysydd, roedd y CGS yn diffinio'r safon i'w chyrraedd ond nid oedd yn dangos ffordd effeithiol i'w chyrraedd, felly roedd llawer yn dibynnu ar fentrau a blaenoriaethau lleol. Cafwyd cynnydd cyffredinol yn yr holl feysydd allweddol yr oedd y CGS yn canolbwyntio arnynt ac mae'r strategaeth wedi cyfrannu at wella profiadau unigolion ag ASD a'u teuluoedd. Er hynny, nid oedd wedi cyflawni ei amcanion yn llwyr mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion ac mae angen parhau â'r CGS a'i ddiweddaru.

## ATODIAD PEDWAR

## Adroddiad Cryno o'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliad 2015

Ym Mawrth 2015 sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD i adolygu gwasanaethau diagnostig a chymorth ar gyfer ASD. Er mwyn ategu'r gwaith hwn, roedd y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD a'r tîm datblygu wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ymgynghori, gan gyrraedd mwy na 1000 o rieni, gofalwyr ac unigolion ag ASD a rannodd eu barn â ni drwy arolygon a gweithdai.

Yn y gweithgarwch ymgynghori, edrychwyd ar brofiadau'r unigolyn o'r broses asesu diagnostig ac ar anghenion am gymorth parhaus a darpariaeth o wasanaethau. Cafwyd llawer iawn o wybodaeth werthfawr a defnyddiol ac mae'n bwysig diolch i bawb a oedd mor garedig â rhannu eu profiadau. Mae'r adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad ar gael yma http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/autistic/?skip=1&lang=cy ac ar wefan ASDinfowales.

Yn fyr, roedd y rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd yn cadarnhau'r hyn roeddem yn ei wybod yn barod am fylchau mewn gwasanaethau a meysydd yr oedd angen eu gwella. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio eisoes i ddatblygu cymorth ac adnoddau a bydd yn cyfrannu at ddatblygu'r diweddariad o'r CGS ASD. Mewn perthynas ag asesu diagnostig, y gwelliannau yr oedd rhieni a gofalwyr wedi cyfeirio atynt amlaf fel rhai yr oeddent am eu gweld oedd:

- **amseroedd aros byrrach ar gyfer diagnosis**
- **rhagor o wybodaeth am y broses, beth i'w ddisgwyl a'r amser y bydd yn ei gymryd**
- **rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth ar adeg cael y diagnosis**

Mewn perthynas â chymorth parhaus, yr anghenion mwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer rhieni, gofalwyr ac unigolion ag ASD oedd:

- **cymorth i ddelio â materion emosiynol ac ymddygiadol**
- **cymorth i ddelio â materion sy'n ymwneud yn benodol ag ASD, sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd**
- **cyfleoedd gwell ar gyfer cymdeithasu a hamdden yn eu hardal leol**
- **gwell gwybodaeth a sgiliau mewn ysgolion**
- **gwell dealltwriaeth o ASD ymysg cyflogwyr a'r rheini sy'n helpu unigolion i gael cyflogaeth**

Mewn perthynas ag anghenion am gymorth ymhlith rhieni a gofalwyr, y rhai a nodwyd amlaf oedd:

- **y gallu i gael gafael ar gyngor yn amserol**
- **rhagor o weithgareddau hamdden cymdeithasol i leihau arwahanrwydd**
- **rhagor o wybodaeth a chyfleoedd i hyfforddi**

## ATODIAD PUMP

## Canlyniadau'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD

Mae'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD a gyhoeddwyd ym Mai 2015 yn amlinellu ein blaenoriaethau nesaf ar gyfer gweithredu ac rydym yn gwneud cynnydd da.

- Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD sydd wedi cwrdd bum gwaith ac a fydd yn darparu cyngor i Weinidogion erbyn Mawrth 2016.
- Cyhoeddwyd cyllid o £2 filiwn i gynnal gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys ASD ac ADHD. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddarparu i fyrddau iechyd.
- Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu ar gyfer gwasanaeth i gwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu. Rydym yn datblygu opsiynau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaeth ASD integredig i gwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwefan www.ASDinfowales sy'n cynnig gwybodaeth ac adnoddau i bobl sydd ag awtistiaeth, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Edrychwyd ar dudalennau'r wefan **18,000** o weithiau yn ystod 2015, tair gwaith y nifer yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae'r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD wedi cynrychioli Cymru yng nghynhadledd Autism Europe a gynhaliwyd yn Senedd Ewrop, lle tynnodd sylw at y modd y mae Cymru'n arwain mewn nifer o feysydd cymorth ar gyfer awtistiaeth.
- Rydym wedi datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth o ASD a hyfforddiant ar gyfer athrawon a meddygon teulu ledled Cymru. Mae'r adnoddau ar gael ar wefan ASDinfowales a bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno o fis Mawrth 2016 i gyd-fynd ag ymgyrch ar y cyfryngau.

## ATODIAD CHWECH

## Cyfeiriadau


Baird, G., Simonoff, E., Pickles, A. et al. Prevalence of disorders of the autism spectrum in a population cohort of children in South Thames: the Special Needs and Autism Project (SNAP). Lancet 2006; 368:(9531)210-5

Brugha, T. et al (2009). *Autism spectrum disorders in adults living in households throughout England - Report from the Adult Psychiatric Morbidity Survey 2007*

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) Cyfrifiad 2011: Ystadegau Allweddol ar gyfer Cymru 2011

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. (2014) [Ar-lein] Ar gael o: – http://www.autism.org.uk/about-autism/autism-and-asperger-syndrome-an-introduction/what-is-asperger-syndrome.aspx. [Cyrchwyd: 13 Mawrth 2014].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

NICE (2011) Information about NICE Clinical Guidance 128

NICE (2013) Autism: recognition, referral, diagnosis and management of adults on the autism spectrum. [NICE clinical guideline 142].

NICE (2013) Autism in Under 19's Support and Management. [NICE Clinical Guideline GC170]

Stuart-Hamilton et al. (2009) The Circumstances and Support Needs of Older People with Autism. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol

Llywodraeth Cymru (2008) Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Sefydliad Iechyd y Byd (1993) The ICD -10 Classification of Mental and Behavioural Disorders: Diagnostic Criteria for Research

## ATODIAD SAITH

## Ffynonellau Cyngor Annibynnol

Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth ar gael am awtistiaeth. Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn, rydym wedi defnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

### Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth

Elusen yn y DU ar gyfer pobl sydd ag awtistiaeth (gan gynnwys syndrom Asperger) a'u teuluoedd. Mae'n darparu gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau arloesol ac yn ymgyrchu i wella bywydau pobl ag awtistiaeth. www.autism.org.uk

### Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn darparu canllawiau cenedlaethol a chyngor i wella iechyd a gofal cymdeithasol

Rôl NICE yw gwella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r GIG a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyhoeddus eraill. Drwy **ddarparu** canllawiau seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr iechyd, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol. **Datblygu** safonau ansawdd a mesuryddion perfformiad ar gyfer y rheini sy'n darparu a chomisiynu gwasanaethau iechyd, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol, a **darparu** amrywiaeth o wasanaethau gwybodaeth i gomisiynwyr, ymarferwyr a rheolwyr ym mhob math o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol www.nice.org.uk

### Research Autism

Gwefan ar gyfer pawb sy'n ymddiddori mewn awtistiaeth yw hon, gan gynnwys pobl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, rhieni a gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi. Dyma un o'r gwefannau mwyaf cynhwysfawr, cyfoes a gwyddonol ddibynadwy yn y byd ar gyfer gwybodaeth am awtistiaeth; y problemau y mae pobl ag awtistiaeth yn eu hwynebu; a'r ymyriadau sydd ar gael i'w helpu www.researchautism.net

### Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru - Prifysgol Caerdydd

Sefydlwyd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru yn 2010 a hi yw'r ganolfan ymchwil awtistiaeth genedlaethol gyntaf yn y DU. Yn ogystal â chynnal gwaith ymchwil o fri rhyngwladol ym meysydd ymddygiad a diagnosis, prosesau biolegol a gwybyddol a theuluoedd, mae'r ganolfan yn chwarae rhan allweddol yn y gymuned awtistiaeth ac mae ganddi enw da am droi ymchwil yn bolisi ac ymarfer. http://sites.cardiff.ac.uk/warc/

# ATODIAD WYTH

## Adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfowales

**http://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=4**

### Cymorth Lleol

Mae'r wefan yn cynnwys cyfeiriadur gwasanaethau a hyfforddiant ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer swyddogion arweiniol lleol ar ASD i helpu defnyddwyr i ddod o hyd i opsiynau sydd ar gael yn lleol.

### Ydych chi'n Ymwybodol o ASD?

Ymunwch â'n cynllun ar-lein i godi ymwybyddiaeth o ASD er mwyn cael dealltwriaeth sylfaenol o ASD a chael tystysgrif i gydnabod eich bod yn ymwybodol o ASD. Gall busnesau a sefydliadau ymuno â'r cynllun hefyd, a chael eu cynnwys yn y cyfeiriadur o sefydliadau ymwybodol o ASD yng Nghymru.

### Byw gydag Awtistiaeth

Mae amrywiaeth o adnoddau defnyddiol ar gael i oedolion ag ASD a'r rheini sy'n eu cefnogi, gan gynnwys:

- Awtistiaeth: canllaw i oedolion yn dilyn diagnosis
- Awtistiaeth: canllaw i bobl sy'n cynorthwyo oedolion yn dilyn diagnosis
- Ap Cynlluniwr ASD: ap sy'n helpu unigolion i gynllunio a threfnu gweithgareddau pob dydd
- Cynllun y Waled Oren: adnodd i helpu unigolion ag ASD i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Offeryn gosod nodau: offeryn rhyngweithiol i helpu unigolion ag ASD i nodi anghenion a gosod nodau mewn nifer o feysydd
- Lluniwr proffil personol i oedolion – offeryn rhyngweithiol i ddatblygu proffil o anghenion a hoff a chas bethau
- Byw gydag Awtistiaeth – ffilm fyr sy'n tynnu sylw at yr anawsterau y mae nifer o oedolion ag awtistiaeth yn eu hwynebu, a sut i'w helpu

### Gweithio gydag Awtistiaeth

Mae nifer mawr o unigolion ag awtistiaeth yn cael bod y broses o chwilio am swyddi ac ymgeisio amdanynt yn anodd. Mae 'Gweithio gydag Awtistiaeth' yn darparu nifer o offer i helpu unigolion i chwilio am swyddi, a hefyd i helpu staff proffesiynol sy'n gweithio ym maes cymorth cyflogaeth i ddysgu a deall mwy am awtistiaeth. Mae'r offer yn cynnwys:

- Lluniwr CV ystyriol o ASD
- Geiriadur sgiliau a lluniwr rhestr sgiliau personol
- Llyfr gwaith cyflogaeth i helpu unigolion ag ASD i ddeall a chymryd rhan yn y broses ymgeisio am swydd
- Ffilm wybodaeth a chynllun ardystio ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n helpu pobl i gael cyflogaeth

- Ap ffôn i helpu unigolion ag ASD i baru eu sgiliau â chyfleoedd posibl am waith

### Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth

Cynllun ar gyfer cyflogwyr yw hwn sy'n cynnwys siarter i gyflogwyr sy'n gefnogol i unigolion ag ASD ac adnoddau cymorth cyflogaeth.

### Tyfu gydag Awtistiaeth

Gall fod yn anodd helpu plentyn sydd ag ASD ar brydiau. Mae'r adran hon yn darparu cyngor i rieni a gofalwyr am addasu eu ffyrdd o weithredu er mwyn bod yn ystyriol o anghenion plant ag ASD, ac mae'n cynnig adnoddau defnyddiol i'w helpu i wneud hyn. Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Awtistiaeth: Canllaw i rieni a chynhalwyr yn dilyn diagnosis
- Cyfres o ffilmiau byr sy'n darparu cyngor i rieni a gofalwyr
- Lluniwr proffil rhyngweithiol i blant
- Taflenni cyngor i rieni a gofalwyr
- Offeryn cynllunio cardiau lluniau
- Siarter 'Archarwr Awtistiaeth' i frodyr a chwiorydd

### Cymorth ASD i Ymarferwyr

Cyfres o becynnau cymorth i helpu gweithwyr proffesiynol yn eu hymyriadau arbenigol cyn ac ar ôl rhoi diagnosis. Mae'r pecynnau cymorth yn cynnwys:

- Gwybodaeth i atgyfeirwyr, gan gynnwys posteri ar adnabod arwyddion o awtistiaeth
- Gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer asesu diagnostig
- Taflenni gwybodaeth i unigolion ag ASD a rhieni / gofalwyr
- Offer cynllunio ar gyfer asesu
- Siartiau ymddygiad
- Taflenni cyngor
- Gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer ymyriadau

### Ymarferwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bydd plant ac oedolion ag ASD yn cysylltu ag ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol am bob math o resymau. Mae'r adnoddau hyn yn cymell ymarferwyr i addasu eu harferion er mwyn darparu ar gyfer anghenion unigolion ag ASD, ac maent yn cynnwys:

- Cynllun e-ddysgu ac ardystio ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion ag ASD
- Ffilm fyr i godi ymwybyddiaeth Ymarferwyr Gofal Iechyd Sylfaenol
- Cyngor ar atgyfeirio ar gyfer asesu diagnostig a phosteri am arwyddion o awtistiaeth
- Llunwyr proffil i blant ac oedolion
- Deunyddiau codi ymwybyddiaeth

## Dysgu gydag Awtistiaeth

Rhaglen codi ymwybyddiaeth i'r ysgol gyfan yw hon a fydd yn helpu ysgolion cynradd prif ffrwd i sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd gefnogol a chynhwysol gyda phlant ag ASD sy'n mynd i ysgolion cynradd prif ffrwd. Gall ysgolion ennill statws 'Ysgol Ymwybodol o ASD' drwy gwblhau'r rhaglen. Mae'r rhaglen arloesol hon yn cynnwys:

- Awtistiaeth: Canllaw i Ysgolion Cynradd Prif Ffrwd
- Ffilm esboniadol fyr sy'n egluro sut y mae'r ysgol yn effeithio ar blentyn sydd ag ASD
- Ffilmiau hyfforddi i athrawon a staff cymorth dysgu
- Cynlluniau ardystio ar gyfer staff addysgu, cymorth dysgu a staff cymorth eraill
- Comic 'Archarwr Awtistiaeth' a chynllun tystysgrifau adduned i ddisgyblion
- Adnoddau a thaflenni cyngor i helpu ysgolion i roi'r rhaglen ar waith

## ATODIAD NAW

## Diweddariad o’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig i Gymru

### Ffurflen ymateb i gwestiynau’r Ymgynghoriad

Eich enw:
Sefydliad (os yw’n gymwys):
E-bost:
Rhif ffôn:
Eich cyfeiriad:
Cod post:

A ydych yn cytuno i chi gael eich enwi yn y rhestr o ymatebion Ydw/Nac ydw – dilëwch yr un nad yw’n gymwys

| **Cwestiynau’r Ymgynghoriad** | **Ymateb** |
|---|---|
| **Pennod Dau**<br>**Codi ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant**<br><br>A ydych yn cytuno â’n cynigion i wella ymwybyddiaeth o ASD:<br>• I ddatblygu a hyrwyddo gwefan ASDinfowales.<br>• I ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i grwpiau proffesiynol.<br>• I barhau i ddatblygu adnoddau i bobl ag awtistiaeth, eu rhieni a gofalwyr.<br><br>A oes meysydd penodol lle mae angen i ni wneud rhagor i godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth, hyfforddiant a datblygiad? | |

| | |
|---|---|
| **Pennod Tri**<br>**Asesu, Diagnosis a Chymorth**<br><br>A ydych yn cytuno â'n cynlluniau i wella gwasanaethau diagnostig i blant a phobl ifanc drwy'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc?<br><br>A ydych yn cytuno â'n cynlluniau i sicrhau gwasanaeth awtistiaeth integredig  yng Nghymru a fydd â'r nod o wella gwasanaethau diagnostig i oedolion?<br><br>Pa waith ychwanegol y gallem ei wneud i wella gwasanaethau diagnostig a chymorth i blant a'u teuluoedd?<br><br>Pa waith ychwanegol y gallem ei wneud i wella gwasanaethau diagnostig a chymorth i oedolion? | |
| **Pennod Pedwar**<br>**Mynd i'r afael ag anghenion cymorth**<br><br>A ydych yn cytuno â'n cynigion i sicrhau gwasanaeth awtistiaeth integredig yng Nghymru er mwyn rhoi blaenoriaeth i gwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu o ran oedolion ag awtistiaeth, a datblygu gwasanaethau cymorth?<br><br>Pa feysydd cymorth eraill ar gyfer pobl ag awtistiaeth y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt? | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Pennod Pump**<br>**Addysg a Chyflogaeth**<br><br>A ydych yn cytuno â'n cynlluniau i sicrhau bod anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion ag ASD yn cael eu diwallu yn ein polisïau ar addysg a chyflogaeth?<br><br>Beth arall allwn ni ei wneud i wella'r cymorth addysg i blant, pobl ifanc ac oedolion?<br><br>Beth arall allwn ni ei wneud i wella'r cymorth cyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion? | |
| **Pennod Chwech**<br>**Cyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu**<br><br>Beth yw'ch barn am ein cynlluniau i gyhoeddi cynllun cyflawni i'n helpu i gyflawni a monitro'r ffordd y bydd y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu yn cael ei roi ar waith?<br><br>Beth yw'ch barn am ein cynlluniau i sefydlu Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD, a fydd yn cynnwys gwahanol randdeiliaid gan gynnwys pobl ag awtistiaeth? | |

| | |
|---|---|
| Beth arall ddylid ei wneud i sicrhau ein bod yn cyflawni’r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac yn monitro cynnydd? | |
| A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodwyd yn y diweddariad o’r CGS ASD a’n cynlluniau ar gyfer cyflawni’r cynllun a monitro’r ffordd y caiff ei roi ar waith?<br><br>A oes unrhyw flaenoriaethau ychwanegol ar gyfer cymorth y dylid rhoi sylw iddynt yn y cynllun gweithredu hwn? | |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| AAD | Anawsterau/Anableddau Dysgu |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| ASD | Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CGS ASD | Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| BGLl | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| BILl | Bwrdd Iechyd Lleol |
| BIP | Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| NAS | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth |
| NICE | Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol |